# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

CA(3)-29-10

## Papur 3 : Nodyn Cyngor Cyfreithiol

### Y Mesur Arfaethedig Ynghylch Tai (Cymru)

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

### Rhagymadrodd

1.Bwriad y nodyn hwn yw helpu'r Pwyllgor i ystyried y Mesur arfaethedig, ond nid nodyn cynhwysfawr mohono yn yr ystyr mai cydategu briffiad manwl yr MRS yw'r bwriad ac nid ei ddyblygu. Yn benodol, nid yw'r Nodyn yn ailadrodd testun y Materion sy'n darparu cymhwysedd deddfwriaethol y Mesur, sef Materion sydd wedi'u nodi yn Rhan 2 o'r briffiad hwnnw. Nid yw ychwaith yn crynhoi cynnwys y Mesur, gan fod hynny wedi'i wneud yn Rhan 5 o'r briffiad hwnnw.

### Pwerau dirprwyedig

2.Agwedd fwyaf trawiadol y Mesur arfaethedig yw'r nifer cyfyngedig iawn o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

3.Yn **Rhan 1**, sy'n ymdrin ag atal yr hawl i brynu, yr unig bwer o'r fath yw'r pwer i wneud diwygiadau canlyniadol ac eraill a geir yn adran 34. Yn unol â'r arfer cyffredin, byddai hynny'n dod o dan y weithdrefn negyddol oni bai ei fod yn diwygio Deddf neu Fesur, pryd y byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys (adran 89). Mae'r Rhan hon yn cynnwys manylion a fyddai, felly, mewn Mesurau eraill sydd wedi dod gerbron y Cynulliad, wedi'u darparu gan Reoliadau.

4.Serch hynny, un eang yw adran 34(2), gan ei bod yn cynnwys pwer i wneud darpariaeth 'ar gyfer cymhwyso neu ymestyn

unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan y Rhan hon (gydag addasiadau neu hebddynt) i unrhyw ddarpariaeth ynghylch neu sy'n berthynol i hawl sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu'. Mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried gyda'r Dirprwy Weinidog yr hyn y gallai 'darpariaeth ynghylch neu sy'n berthynol i hawl sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu' ei gynnwys a sut y gallai Rhan 1 o'r Mesur gael eu cymhwyso atyn nhw.

5.Yn **Rhan 2**, yr unig bwer dirprwyedig yw'r pwer i amrywio uchafswm y gosb o'r £5,000 a bennir gan y Mesur am dramgwydd o dan y Rhan honno a gyflawnir gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Gan fod hyn wedi'i gyplysu ag uchafswm y ddirwy y caiff llys ynadon ei gosod a chan fod yr uchafswm hwnnw yn ei dro yr un fath ag uchafswm cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan baragraff 2 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, dim ond os caiff uchafswm y llys ynadon ei hun ei gynyddu y gall y pwer hwn gael ei arfer. Byddai gorchymyn o dan yr adran hon yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

6.Mae Rhan 2 yn cyfeirio hefyd yn adrannau 79 ac 80 at bwerau i wneud gorchmynion sydd eisoes ar gael yn Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996. Gorchmynion yw'r rhain a all gael eu gwneud dros dro neu yn sgil adroddiad neu archwiliad terfynol fel a ganlyn –

"(b) an order directing any bank or other person who holds money or securities on behalf of the registered social landlord not to part with the money or securities without the approval of the Welsh Ministers;

(c) an order restricting the transactions which may be entered into, or the nature or amount of the payments which may be made, by the registered social landlord without the approval of the Welsh Ministers."

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan adrannau 79 ac 80 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i roi hysbysiad i'r landlord cymdeithasol cofrestredig cyn arfer y pwerau hyn i wneud gorchymyn. Mae'n bosibl yr hoffai'r Aelodau ystyried gyda'r Dirprwy Weinidog pam y barnwyd bod hyn yn briodol.

7.Yn **Rhan 3**, mae adran 89 yn cynnwys y darpariaethau arferol ynglyn â gwneud gorchmynion, gan gynnwys y pwer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol etc., i wneud darpariaeth gyffredinol neu benodol, ac i wneud darpariaethau cysylltiedig etc. Mae adran 90(2) yn cynnwys y pwer arferol i wneud Gorchmynion Cychwyn na fydden nhw, yn unol â'r arfer, yn dod o dan weithdrefn ddeddfu.

### Safonau

8.Y prif fater sydd o ddiddordeb o safbwynt cyfreithiol yw pennu safonau o dan adran 35. Byddai'n ofynnol i'r safonau hyn gael eu

bodloni gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac fe allen nhw gyfeirio at eu swyddogaethau ynglyn â darparu tai a materion ynglyn â'u llywodraethiant a'u rheolaeth ariannol. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cael dyroddi canllawiau ynghylch y safonau hyn o dan adran 36. Mae adran 37 yn cynnwys gofyniad bod rhaid ymgynghori ag un neu fwy o gyrff y mae'n ymddangos iddyn nhw eu bod yn cynrychioli buddiannau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig cyn pennu safonau neu ddyroddi canllawiau eu diwygio neu eu tynnu yn ôl.

9.Mewn cyferbyniad â'r manylion a geir yn Rhan 1 o'r Mesur, does gan yr adrannau hyn fawr o fanylion am sut y byddai'r broses hon yn gweithio. Yn arwyddocaol ddigon i bwyllgor sydd wedi craffu ar bennu safonau o dan Fesur y Gymraeg, does dim gofyniad bod rhaid i'r safonau gael eu pennu drwy reoliadau sy'n gorfod cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad. Mae'n sicr bod hwn yn fater yr hoffai'r Pwyllgor ymchwilio iddo. Yn yr un modd, cyfyngedig iawn ei natur yw'r ymgynghori arfaethedig. Nid yw'n cynnwys darpariaeth gyffredinol fel 'unrhyw bersonau eraill y mae yn eu barn hwy yn briodol ymgynghori â

hwy' (adran 12 o'r Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)). Gan hynny, fyddai hi ddim yn ofynnol ymgynghori â grwpiau tenantiaid, er enghraifft.

10.O ran cyferbyniad, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am nodi adran 40 sy'n ymwneud â chanllawiau am gwynion. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidogion ymgynghori nid yn unig â chynrychiolwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, tenantiaid ac awdurdodau tai lleol, ond hefyd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid yw'n gwbl amlwg pam mae'r gofynion ar ymgynghori mor wahanol. Efallai fod hyn yn rhywbeth y bydd y Pwyllgor am holi'r Gweinidog yn ei gylch.

### Pwerau mynediad

11.Bydd yr Aelodau'n cofio'r pryderon a gafodd eu codi gan y Pwyllgor ynghylch pwerau mynediad mewn deddfwriaeth arall. Mae pwer o'r fath i'w fewnosod yn Neddf Tai 1996 gan adran 48 o'r Mesur hwn. Byddai hynny'n darparu i arolygydd fynd i mewn i 'premises occupied by the registered social landlord which is being inspected' a hynny 'at any reasonable time'. Yr awgrym yw nad yw hyn yn cynnwys stoc dai sydd wedi'i meddiannu gan denantiaid, ond mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ofyn am gadarnhad a ydy hynny'n wir, ac a oes unrhyw reswm pam nad yw hynny wedi'i ddatgan yn bendant yn y Mesur.

**Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tachwedd 2010**